Morgan Rhys, 1716–79
Emynydd ac athro cylchynol

O! agor fy llygaid i weled
Dirgelwch dy arfaeth a'th air;
Mae'n well i mi gyfraith dy enau
Na miloedd o arian ac aur:
Y ddaear â'n dân, a'i thrysorau,
Ond geiriau fy Nuw fydd yr un;
Y bywyd tragwyddol yw 'nabod
Fy Mhrynwr yn Dduw ac yn ddyn.

Pennill o waith Morgan Rhys.

Dyn dirgel y Diwygiad Methodistaidd oedd Morgan Rhys oherwydd ychydig iawn a wyddom i sicrwydd amdano. Mae llawer o'r wybodaeth sydd gennym un ai'n cael ei thybio, neu wedi ei throsglwyddo ar dafod leferydd. Eto, fel emynydd saif ymhlith y pwysicaf a'r galluocaf yn hanes ein hemynyddiaeth. Mentrodd rhai ddweud mai ef oedd emynydd mwyaf ein cenedl yn y ddeunawfed ganrif.

Fe'i ganwyd yn ôl pob tebyg ar 1 Ebrill 1716 yn yr Efail-fach, Cil-y-cwm, ryw bedair milltir o Lanymddyfri, Caerfyrddin, yn fab i Rhys ac Anne Lewis. Dywedir iddo ddod i gredu wrth wrando ar Howell Harris yn pregethu ond nid oes tystiolaeth bendant i gadarnhau hynny.

Gwyddom i sicrwydd iddo weithio fel athro cylchynol mewn rhannau o siroedd Caerfyrddin a Cheredigion rhwng 1757 a 1775 oherwydd bod cyfeiriad ato yn y *Welch Piety*, adroddiad blynyddol yr ysgolion.

Ar ddiwedd ei oes yr oedd yn byw yng Nghwm Gwaun Hendy, Llanfynydd, a chladdwyd ef ym mynwent Llanfynydd ar 9 Awst 1779. Dengys ei ewyllys yr hyn oedd yn wirioneddol bwysig iddo ar derfyn ei oes, oherwydd gwelwn iddo ddarparu ar gyfer ei briod a'i berthnasau, a gadawodd arian i weinidogion y Methodistiaid, yn eu plith Daniel Rowland, David Jones, Llangan,

a William Williams, Pantycelyn. Gadawodd hefyd roddion i'r seiadau yn Nantgaredig, Llansawel, Cil-y-cwm ac eraill.

Yn ôl arfer beirdd ei oes ysgrifennodd farwnadau er cof am gyfeillion a fu farw. Canodd farwnad i'r Parchedigion Howel Davies, Lewis Lewis, Llanddeiniol a Mr Morgan Nathan, Llandeilo Fawr. Ond yr oedd ei arbenigedd a'i fawredd heb os yn ei emynau godidog. Y casgliad cyntaf a gyhoeddwyd ganddo oedd *Golwg o Ben Nebo* (1755) a gynhwysai un ar ddeg o emynau. Yna, ym 1760, ymddangosodd cyfrol o ddau ar hugain o emynau yn dwyn y teitl *Casgliad o Hymnau*. Ailargraffwyd *Golwg o Ben Nebo* ym 1764 gyda deugain o emynau newydd ynddo. *Golwg ar y Byd hwn yn myned heibio* oedd enw'r casgliad newydd a gyhoeddodd ym 1767. Yn y 70au cyhoeddodd ddwy gyfrol arall, sef *Golwg ar Ddinas Noddfa* (1770) a *Griddfannau'r Credadyn* (1772). Y mae ei emynau'n mynegi profiadau ysbrydol dwys, y lleddf a'r llon, a cheir yn fynych fynegiant o chwerwder pechod ochr yn ochr â melyster gras Duw yn Iesu Grist, fel yn y pennill hwn o'i eiddo.

> Er i mi bechu yn ffiaidd o'm mebyd hyd yn awr,
> Mil mwy yw dy drugaredd na'm holl bechodau mawr;
> Mwy rhinwedd gwaed dy galon na'm ffiaidd bechod cas,
> Dyfnach na damnedigaeth yw'th gadwedigol ras.

Ceir enghreifftiau o'i waith ym mhob casgliad o emynau Cymraeg ac y mae un ar ddeg ohonynt yn y gyfrol *Caneuon Ffydd*. Dywedodd H. Elvet Lewis fel hyn mewn rhagair i lyfr amdano: 'Ei emynau yw ei gofiant a'i gofgolofn.'